



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Symptomau – cofiwch na ddylech ddanfon eich plant i'r ysgol os ydynt yn arddangos unrhyw symptomau coronafeirws.

LFT Positif – os fydd eich plentyn yn derbyn canlyniad LFT positif yna mae angen i chi uwchlwytho'r wybodaeth i app y GIG fel bod modd i Profi ac Orlhain gael dyddiad cadarn ar gyfer gorffen hunanynysu.

Datblygu cwricwlwm Dyniaethau yr ysgol - mae disgyblion yr ysgol yn datblygu eu dealltwriaeth o hanes eu milltir sgwâr ac yn awyddus i gael cymorth y gymuned er mwyn dysgu mwy am lefydd / ardaloedd diddorol yn Aberystwyth. Mae'r disgyblion wedi cychwyn creu cyflwyniad powerpoint sy'n cynnwys lluniau o wahanol adeiladau diddorol sydd i'w gweld ar hyd taith saith milltir o gwmpas y dref a'r cyffiniau – gweler atodiad.

Mi fyddem yn dymuno estyn gwahoddiad i chi fel rhieni / gwarcheidwaid i gyfrannu tuag at y lluniau neu'r wybodaeth sydd gyda ni er mwyn ehangu y cyflwyniad sydd gyda ni ar hyn o bryd – efalla y gallwn ni gael gwybodaeth am **50 neu hyd yn oed 100 o lefydd diddorol yn Aberystwyth a'r cyffiniau.**

Wrth edrych drwy'r cyflwyniad mae'n bosib y byddwch yn dymuno rhannu lluniau ac ychydig o wybodaeth am lefydd arall fyddai o ddiddordeb. Danfonwch unrhyw wybodaeth neu luniau at y cyfeiriad prif@aysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk o fewn y bythefnos nesaf. **Tair ffaith ddiddorol (tua 50 o eiriau yn unig) a llun o bosib.**

Cystadlu yn UNIGOL yn Eisteddfod yr Urdd

Mae trefnwyr yr Urdd yng Ngheredigion yn awyddus i gael rhyw fras amcan o faint o blant fydd yn dymuno cystadlu yn **UNIGOL** yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Os ydych yn meddwl y bydd eich plentyn yn cystadlu ar unrhyw un o'r cystadlaethau unigol isod yna e bostiwch yr ysgol erbyn dydd Mawrth, Ionawr 25ain. Prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk Mi fyddwn yn cysylltu â chi eto o safbwynt trefniadau cofrestru.

Cystadlaethau unigol

Llefaru unigol BI 2 ac iau, Llefaru Unigol BI 3 a 4, Llefaru Unigol BI 5 a 6.

Unawd BI 2 ac iau, Unawd BI 3 a 4, Unawd BI 5 a 6, Deuawd BI 6 ac iau.

Alaw Werin dan 12.

Unawd Cerdd Dant BI 2 ac iau, Unawd Cerdd Dant BI 3 a 4, Unawd Cerdd Dant BI 5 a 6.

Yn dilyn cael syniad o'r niferoedd mi fydd yr Urdd yn penderfynu os fydd angen dilyn y drefn arferol o gael rhagbrofion ac Eisteddfod gylch neu o bosib danfon pawb ymlaen i'r Eisteddfod Rhanbarth. Cofiwch na fydd staff yr ysgol yn paratoi disgyblion ar gyfer y cystadlaethau unigol.

Mi fydd yr ysgol yn trefnu'r cystadlaethau torfol megis corau, partïon a grwpiau dawnsio ac ati pan fydd y cyfyngiadau covid19 yn newid. Ar hyn o bryd nid oes modd i ni gymysgu swigod dosbarth.

Rydym hefyd yn disgwyl ymlaen i drefnu rhyw fath o Eisteddfod ysgol yn hwyrach eleni.

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams, Pennaeth

14/1/2022



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Symptoms - remember that you should not send your children to school if they show any symptoms of coronavirus.

Positive LFT – if your child receives a positive LFT then you need to upload the information to the NHS app so that Track and Trace can have a concrete end date for self-isolation.

Developing the school's Humanities curriculum - pupils at the school are developing their understanding of the history of their local area and are keen to get the community's help in order to learn more about places / areas of interest in Aberystwyth. Pupils have started to create a PowerPoint presentation that includes pictures of various interesting buildings that can be seen along a seven mile walk around the town and its surroundings – please see attachment.

We would like to invite you as parents / guardians to contribute to the photos or information we have in order to expand the presentation - perhaps we can find information about **50 or even 100 interesting places in Aberystwyth and the surrounding areas**. As you look through the presentation you may want to share photos and information about other places of interest.

Send any information or photos to prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk within the next two weeks. **Three interesting facts (about 50 words only) and possibly a photo.**

Competing as an INDIVIDUAL at the Urdd Eisteddfod

Organisers of the Urdd in Ceredigion are keen to have a rough idea of how many children will want to compete **individually** at this year's Urdd Eisteddfod. If you think your child will be competing in any of the individual competitions below then please email the school by Tuesday, January 25th. We will contact you again regarding registration arrangements.

Individual competitions

Individual Recitation Yr 2 and under, Individual Recitation Yr 3 & 4, Individual Recitation Yr 5 & 6.

Solo (singing) Yr 2 and under, Solo Yr 3 & 4, Solo Yr 5 & 6, Duet Yr 6 and under.

Under 12 Folk song.

Yr 2 and under Cerdd Dant Solo, Yr 3 & 4 Cerdd Dant Solo, Yr 5 & 6 Cerdd Dant Solo.

After getting an idea of the numbers, the Urdd will decide if it is necessary to follow the usual prelims and an Aberystwyth area Eisteddfod or possibly send everyone on to the Regional Eisteddfod. Please note that school staff will not prepare pupils for the individual competitions.

The school will organise the group competitions such as choirs, parties and dance groups etc when the covid19 restrictions change. At the moment we cannot mix class bubbles.

We also look forward to arranging some type of school Eisteddfod later this year.

If you have any worries regarding your child's education then please contact me immediately.

R C Williams, Headteacher

14/01/2022